Dyma rifyn arbennig o'r newyddlen ar gyfer penaethiaid, staff a llywodraethwyr yn rhoi gwybodaeth am y broses o ad-drefnu ysgolion Gwynedd. Er gwybodaeth i chwi, cyfeiria'r newyddlen yma tuag at adroddiad blynyddol y bu'r Cyngor dderbyn gan y Swyddfa Archwilio Cymru sef **"Adroddiad Gwella Blynyddol – Cyngor Gwynedd, Chwefror 2012".**

Gellir gweld copi llawn o'r ddogfen ar ein gwefan yn:
http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1125/Adroddiad_Gwella_Blynyddol_Chwefror_2012.pdf

Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar ba mor dda mae Cynghorau Cymru, awdurdodau tan ac achub, a pharciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda maent yn cyflwyno'u gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant Cyngor Gwynedd o gymharu â'r llynedd, a'i drefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant pellach.

Yn gryno felly, nodwn sylwadau'r ddogfen honno ble mae'n cyfeirio tuag at ad-drefnu ysgolion fel yr isod:

Mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau anodd o hyd er mwyn ceisio sicrhau darpariaeth addysgol gwell i blant a phobl ifanc.

76 Ers ein hadroddiad y llynedd, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio ei menter Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i adlewyrchu'r lleihad yn y cyllid cyfalaf sydd ar gael. Roedd yn ofynnol i gynghorau gyflwyno strategaethau diwygiedig yn cwmpasu cyfnod o chwe blynedd, pan fyddai'n ofynnol iddynt gyfrannu 50 y cant o'r cyfalaf angenrheidiol, yn hytrach na'r 30 y cant a gynlluniwyd yn wreiddiol. Mae strategaeth ddiwygiedig y Cyngor wedi denu £18.1 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru i wella ansawdd adeiladau ysgol mewn pedair ardal yn y sir. Mae'r swm hwn ar ben y £5.5 miliwn o gyfalaf Llywodraeth Cymru a ymrwymwyd yn flaenorol i wella ansawdd ysgolion yn ardal Tywyn. Erbyn hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo cynllun ad-drefnu ysgolion mawr cyntaf y Cyngor, a fydd yn arwain at gau pum ysgol (y mae un ohonynt wedi cau eisoes) ac adeiladu ysgol ardal newydd. Mae parodrwydd y Cyngor i ddarparu swm cyfatebol i ymrwymiad cyllid Llywodraeth Cymru yn dangos ei uchelgais o ran gwella adeiladau ysgol.

77 Yn llythyr Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi, gwnaethom fynegi bod dull cyffredinol y Cyngor o ad-drefnu ysgolion, ar lefelau sirol a lleol fel ei gilydd, wedi'i seilio ar egwyddorion cadarn a phroses resymol. Serch hynny, mae'n anochel bod cynigion sy'n cynnwys cau ysgolion yn ddadleuol. Yn achos ad-drefnu ardal Tywyn, gall y Cyngor ddangos ei fod wedi ystyried barn pobl ac, mewn rhai achosion, wedi gwneud newidiadau i fynd i'r afael a phryderon.

78 Yn y cyfamser, mae'r Cyngor wedi parhau a'i raglen o adolygu'r ddarpariaeth ysgolion ym mhob dalgylch. Mae Cynghorwyr wedi gwneud penderfyniadau anodd wrth symud yr agenda hon yn ei blaen, sy'n adlewyrchu'n gadarnhaol ar arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor. Er bod amcanion y rhaglen addrefnu'n canolbwyntio'n briodol ar godi safonau, roedd 28.6 y cant o'r lleoedd mewn ysgolion yng Ngwynedd yn wag ym mis Ionawr 2011, sef y lefel uchaf o leoedd gwag yng Nghymru.

79 Er gwaethaf yr aneffeithlonrwydd sy'n gysylltiedig a lefelau uchel o leoedd gwag, mae cost addysg gynradd fesul disgybl wedi disgyn rhywfaint yn 2011-12 i £5,060, sef y pedwerydd uchaf ymhlith o bob cyngor yng Nghymru. Cynyddodd y gost gyfwerth ar gyfer ysgolion uwchradd rywfaint i £4,942 fesul disgybl, sef y chweched uchaf o bob cyngor yng Nghymru. Gyda'i gilydd, cynyddodd gwariant ar ysgolion cynradd ac uwchradd oddeutu 0.5 y cant. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn wedi'i osod yng nghyd-destun cynnydd o 0.1 y cant yn unig yng ngwariant cyffredinol y Cyngor ar addysg. Felly, mae'r Cyngor wedi dechrau trosglwyddo mwy o adnoddau i wasanaethau 'rheng flaen', yn unol a pholisi Llywodraeth Cymru.

Gwybodaeth Bellach
Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk neu drwy gysylltu gyda'r Adran Addysg ar 01286 679 247 neu drwy e-bost at trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk

School Organisation – Cyngor Gwynedd

Bulletin: School Heateachers, Staff and Governors – March 2012

Addysg

Here is a special edition of the newsletter for headteachers, staff and governors regarding school organisation in Gwynedd. For your information, this newsletter refers to an annual report published by the Wales Audit Office namely "**Annual Improvement Report – Gwynedd Council, February 2012".**

The full report is available on our website at:
http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1125/Annual_Improvement_Report_February_2012.pdf

Each year, the Auditor General must report on how well Welsh councils, fire and rescue authorities, and national parks are planning for improvement and delivering their services. Drawing on the work of the Wales Audit Office and relevant Welsh inspectorates, this report presents a picture of the extent to which Gwynedd Council has improved over the last year, and its arrangements for securing further improvement.

In summary therfore, we note the comments regarding school organisation within that report as follows:

The Council continues to take difficult decisions in the pursuit of better educational provision for children and young people.

76 Since we reported last year, the Welsh Government has revised its 21st Century Schools initiative to reflect the reduction in the capital funding available. Councils were required to submit revised strategies covering a six-year period, and during which they would be required to contribute 50 per cent of the necessary capital, rather than the 30 per cent that had originally been planned. The Council's revised strategy has attracted £18.1 million in Welsh Government funding in order to improve the quality of school buildings in four areas of the county. This sum is in addition to the £5.5 million of Welsh Government capital previously committed to improving the quality of schools in the Tywyn area. Welsh Ministers have now approved this, the Council's first major reorganisation of schools, that will result in the closure of five schools (one of which has already closed) and the building of a new area school. The Council's willingness to match the Welsh Government funding commitment demonstrates its ambition in terms of improving school buildings.

77 We reported in the Auditor General's September Corporate Assessment Update letter that the Council's overall approach to school reorganisation, at both county and local levels, is based on sound principles and a reasonable process. Nevertheless, proposals involving the closure of schools are inevitably controversial. In the case of the Tywyn area reorganisation, the Council can show that it has taken account of people's views and, in some cases, made changes to accommodate concerns

78 In the meantime, the Council has continued its programme of reviewing the provision of schools in each catchment area. Councillors have taken difficult decisions in taking forward this agenda, reflecting positively on the Council's political leadership. While the objectives of the reorganisation programme focus appropriately on raising standards, 28.6 per cent of places in Gwynedd schools were empty in January 2011, the highest level of surplus capacity in Wales.

79 Despite the inefficiencies associated with high levels of surplus capacity, the cost per pupil of primary school education[2] has fallen slightly in 2011-12 to £5,060, the fourth highest among all councils in Wales. The equivalent cost for secondary schools increased slightly to £4,942 per pupil, the sixth highest among councils in Wales. In total, expenditure on primary and secondary schools increased by about 0.5 per cent. However, this increase is set within the context of an increase of only 0.1 per cent in the Council's overall expenditure on education. The Council has therefore begun to transfer more resources to 'frontline services', in line with Welsh Government policy.

Further Information

More information is available on the Council's website www.gwynedd.gov.uk or by contacting the education department on 01286 679 247 or by e-mailing schools.organisation@gwynedd.gov.uk

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL